Portal

Gwobrau 2020 Awards

Mawrth y 6ed
Gwesty Dewi Sant

St David's Hotel
6th of March

Noddir y diodydd croeso gan /
Welcome drinks sponsored by
BPU Chartered Accountants

Cynnwys / Contents

Croeso / **Welcome** 4

Cyflwynydd / **Host** 5

Siaradwr Gwadd / **Guest Speaker** 6

Enwebion / **Nominees**:

1. Dysgwr y Flwyddyn Cyfrwng Cymraeg / **Welsh Medium Learner of the Year** 8
2. Dysgwr y Flwyddyn (Ysgolion) / **Learner of the Year (Schools)** 9
3. Dysgwr y Flwyddyn (Busnes) / **Learner of the Year (Business)** 10
4. Dysgwr y Flwyddyn (Chwaraeon) / **Learner of the Year (Sports)** 11
5. Cyflogwr y Flwyddyn (Addysg) / **Employer of the Year (Education)** 12
6. Cyflogwr y Flwyddyn / **Employer of the Year** 13
7. Asesydd y Flwyddyn / **Assessor of the Year** 14
8. Gwobr Cyfraniad Arbennig / **Special Recognition Award** 15

Noddwyr / **Sponsors** 16

Diolch / **Thanks** 22

Croeso!

Mae'r noson hon yn ymwneud â dathlu! Dathlu ansawdd, dygnwch a gwaith caled ein dysgwyr anhygoel a'r gefnogaeth aruthrol a gânt gan gyflogwyr gwirioneddol wych. Mae'n bleser croesawu pob un o'r bobl deilwng hyn, sydd ar y rhestr fer, i'n noson arbennig.

Mae gennym achos i ddathlu hefyd gan fod Portal yn 10 oed eleni. Rydyn ni'n aml yn nodi ein bod yn gwmni ifanc ond mae'n syfrdan sut mae degawd wedi gwibio heibio, a'r holl brofiadau rydyn ni wedi'u cael a'r gwersi rydyn ni wedi'u dysgu, yn amhrisiadwy.

Mae Portal o hyd, yn deulu bach hyfryd o bobl sy'n gofalu am ei gilydd ac mae heno hefyd, yn ddathliad o'u hymroddiad a'u hymrwymiad i'r siwrne rydyn ni wedi'i dewis a'r nodau rydyn ni wedi'u gosod gyda'n gilydd. Heb y gwaith gwych mae'r tîm yn ei wneud bob dydd ni fyddai Portal yn bodoli.

Mae'r ddegawd ddiwethaf wedi gwibio heibio ac eto, teimlwn mai nawr mae'r daith yn dechrau... Mae Portal yn barod i hedfan a chydio yn antur y 2020au!

Diolch yn ddiffuant iawn am ddod draw i ddathlu gyda ni heno ar noson wirioneddol arbennig. Rydym wir yn ddiolchgar ac yn gwerthfawrogi eich amser a'ch cefnogaeth. Mae'n golygu popeth i gael ffrindiau o'n cwmpas heno.

This evening is all about celebrating! Celebrating the quality, resilience and hard work of our amazing learners and the tremendous support they receive from truly outstanding employers. It's a pleasure to welcome all these worthy shortlisted people to our special evening.

We also have cause to celebrate as Portal is celebrating its 10th anniversary this year. We often comment that we are still young and just getting our feet under us and yet a decade has flown by and wow, what experiences we've had and lessons we've learnt.

Portal is still a small lovely family of people who look after each other and tonight is also a celebration of their dedication and commitment to the vision and goals we've set collectively. We wouldn't be here without the great passion that the team display daily towards their roles.

The past decade has flown by and yet, we're only getting started. Come on the 2020s, Portal is ready to go!

Thank you most sincerely for coming along to celebrate with us on this momentous occasion. We really are grateful and appreciative of your time and support. It sincerely means everything to have friends with us tonight.

Gwawr Booth

Rheolwr Gyfarwyddwr / Managing Director

Cyflwynydd y noson / **Your Host...**

Eleri Siôn

Ar ôl hyfforddi a gweithio fel canwr a chyflwynydd rhan-amser a raglenni teledu plant, graddiodd Eleri o Brifysgol Caerdydd ac yna ymuno ag adran chwaraeon BBC Radio Cymru ym 1995. Eleri oedd y ferch gyntaf i sylwebu ar gemau rygbi ar gyfer yr orsaf radio.

Bu'n gweithio hefyd fel cynhyrchydd teledu gyda'r cwmni cynhyrchu Apollo, ar raglenni plant fel *Noc Noc*, uchafbwynt cerddorol blynyddol S4C sef *Cân i Gymru* a'r rhaglen goginio *Dudley*. Dychwelodd i fyd chwaraeon ym 1997 fel is-gynhyrchydd a chyflwynydd *Y Clwb Rygbi*. Yna cyflwynodd gyfres amrywiol, gan gynnwys *Rygbi Iwerddon*, *Pencampwriaeth Pêl-rwyd y Byd* a *Phencampwriaethau'r Byd Hoci sglefr-rolio*. Yn ystod y cyfnod hwn, cyflwynodd raglen chwaraeon BBC Radio Cymru ar brynhawn Sadwrn, *Camp Lawn* gyda Dylan Ebenezer. Arweiniodd hyn at waith cynhyrchu a chyflwyno ar Sky Arts ar ei ddarllediadau Dartiau a Pŵl. Yna cyflwynodd Eleri nifer o raglenni ar S4C, gan gynnwys y rhaglen dalent *Wawffactor*, *Eisteddfod yr Urdd* ac *Y Briodas Fawr*.

Ar ôl dod yn rhan o'r criw ar sioe nos Wener Jonathan Davies *Jonathan*, cyflwynodd ei sioe sgwrsio ei hun *Cadair Fawr Eleri Siôn*. Cyflwynodd hefyd ar y sioe gylchgrawn nosweithiol *Heno* (Tinopolis). Ers canol mis Hydref 2013, mae Eleri wedi cyflwyno'r sioe radio prynhawn bob dydd Llun i ddydd Iau ar BBC Radio Wales.

After training and working as a singer and part-time presenter of children's television programmes, Eleri started reading Welsh at Cardiff University. She took a two-year break in order to present children's sports programme *Cracabant* before finishing her degree at Cardiff University. She joined the sports department of BBC Radio Cymru in 1995, becoming the first woman to report on rugby matches for the station.

After graduation she worked as a television producer with production company Apollo, on children's programme *Noc Noc*, S4C's annual musical highlight *Cân i Gymru* and cookery programme *Dudley*. She returned to sports in 1997 as a sub-producer and presenter on *Y Clwb Rygbi*. She then introduced various series, including *Irish Rugby*, *World Championship Netball* and *Roller-hockey World Championships*. During this period she also presented Saturday afternoon sports programme *Camp Lawn* with Dylan Ebenezer on BBC Radio Cymru. This led to production and presentation work on Sky Arts - on its Darts and Pool coverage. Eleri then presented a number of non-sports programmes on S4C, including talent programme *Wawffactor*, S4C's coverage of *Eisteddfod yr Urdd* and presented *Y Briodas Fawr* with Rhodri Owen.

After becoming part of the posse on Jonathan Davies' S4C Friday evening show *Jonathan*, she presented her own chat-show *Cadair Fawr Eleri Siôn*. She also presented on the nightly magazine show *Heno* (Tinopolis). Since mid-October 2013, Eleri has presented the Monday-Thursday daily afternoon radio show on BBC Radio Wales.

Siaradwr Gwadd / **Guest Speaker**

Lowri Morgan

Cymhelliant, Ysbrydoliaeth a Gwthio Ffiniau

Mae Lowri Morgan yn gyflwynydd teledu ac yn redwr marathonau-uwch-ddygnwch medrus iawn ac yn adnabyddus am ei hanturiaethau niferus a'i rasys eithafol. Fel siaradwr ysgogol mae'n siarad am hunangred a bywyd heb unrhyw derfynau.

"Mae fy angerdd am wthio fy ffiniau corfforol a meddyliol yn emosiwn rhy gryf i'w anwybyddu"

Dim ond 7 o bobl ledled y byd sydd wedi cwblhau'r Marathon Ultra 6633, ac mae Lowri Morgan yn un ohonyn nhw.

Pan oedd yn blentyn, bu Lowri brofi damwain wael a dywedwyd wrthi na fyddai byth yn gallu rhedeg eto. Er gwaethaf hyn, roedd Lowri yn benderfynol o ymwrthod y safbwynt hwn a dydi hi byth wedi rhoi'r gorau i redeg - erbyn hyn mae rhedeg yn rhan fawr o'i bywyd hi. Yn 2009, gorffennodd yn 10 uchaf ei ultra marathon cyntaf erioed - The Jungle Marathon yn yr Amazon. Yn 2016, hi oedd y person cyntaf i redeg o Ogledd i Dde Cymru trwy gopaon a mynyddoedd uchaf y wlad mewn 60 awr.

Fel cyflwynydd teledu, Lowri wedi gweld ychydig o bopeth. Mae hi'n un o 80 o bobl i blymio i lawr i longddrylliad y Titanic ac yn y 5 mlynedd diwethaf mae wedi cyflwyno rhaglenni dogfen am fywydau llwythau lleol yn Namibia, China, Moroco, Mecsico a Pheriw.

Mae Lowri yn siaradwr a chyflwynydd ysbrydoledig sy'n gwybod am benderfyniad a chymhelliant.

Motivation, Inspiration & Pushing Boundries

Lowri Morgan is an award-winning TV presenter and an extremely accomplished ultra-endurance marathon runner and known for her many adventures and extreme races. As a motivational speaker she talks about self-belief and life with no limits.

"My passion for pushing my physical and mental boundaries is an emotion too strong to ignore"

Only 7 people worldwide have completed the 6633 Ultra Marathon, and Lowri is one of them.

As a child Lowri was involved in an accident and was told she would never be able to run again. Despite this, Lowri was determined to fight and never gave up, and now running is part of who she is. In 2009, she finished in the top 10 of her first ever ultra marathon, The Jungle Marathon in the Amazon. In 2016, she became the first person to run from North to South Wales via the country's highest peaks and mountains in 60 hours.

As an award-winning TV presenter, Lowri has seen a bit of everything. She is one of 80 people to dive down to The Titanic wreck and has in the last 5 years presented documentaries about the lives of local tribes in Namibia, China, Morocco, Mexico and Peru.

Lowri is a truly inspirational keynote speaker and presenter who knows determination and motivation.

Dysgwr y Flwyddyn (Cyfrwng Cymraeg)
Learner of the Year (Welsh Medium)

Llongyfarchiadau i'r dair a enwebwyd am wobr Dysgwr y Flwyddyn (Cyfrwng Cymraeg), a noddir gan brif ddarparwr hyfforddiant Cymru, ACT.
Congratulations to the nominees who have been successful in the Learner of the Year (Welsh Medium) category, sponsored by Wales' leading training provider ACT.

Catrin Jones
Ysgol y Preseli

Mae Catrin wedi datblygu i fod yn arweinydd naturiol ac effeithiol yn dilyn cwblhau rhaglen arweinyddiaeth Portal.

O'r diwrnod cyntaf ar y cwrs, dangosodd Catrin ymrwymiad llwyr i'r gwaith gan sicrhau cyflawniad gwaith amserol cyson, hyd yn oed pan oedd gofynion llwyth gwaith yr ysgol yn drwm.

Catrin has developed into a natural and effective leader following the completion of the Portal leadership program.

From the first day on the course, Catrin showed complete commitment to the work and ensured consistent timely work delivery, even when the demands of the school workload were heavy.

Natalie Evans
Ysgol Maes y Gwendraeth

Mae Natalie wedi arwain maes hynod o heriol ar draws yr ysgol gyfan, ac yn sgil y gwaith hwn mae hi wedi derbyn secondiad mewnol gan yr ysgol ac ERW i ddatblygu ei sgiliau ymhellach. Bu sawl rhwystr yn ei wynebu, ond ar bob achlysur, daeth gallu Natalie i ddylanwadu ar eraill yn bositif i'r amlwg.

Natalie has led an extremely challenging subject across the whole school, and as a result of this work, she has received an internal secondment from the school and ERW to further develop her skills. There have been many obstacles facing her, but on each occasion, Natalie had the ability to positively influence others.

Sam Demarco
Ysgol Maes y Gwendraeth

Fel athrawes arloesol a brwdfrydig mae Sam wedi bod yn rhannu arferion addysgu effeithiol ar draws yr ysgol gyfan ers blynyddoedd. Yn sgil y datblygiad yn ei sgiliau fel arweinydd, fe'i hapwyntiwyd yn Bennaeth Adran ym mis Medi 2019 gan hefyd roi'r cyfle iddi ddatblygu gweithgareddau ysgol gyfan i hybu iechyd a lles.

As an innovative and enthusiastic teacher, Sam has been sharing effective teaching practices across the whole school for years. As a result of the development of her leadership skills she was appointed Head of Department in September 2019 - giving her further opportunities to develop whole school activities that promote health and well-being.

Dysgwr y Flwyddyn (Ysgolion)
Learner of the Year (Schools)

Llongyfarchiadau i'r dair a enwebwyd am wobr Dysgwr y Flwyddyn (Ysgolion), a noddir gan gwmni Gwasanaethau Addysgu Apollo.
Congratulations to the nominees who have been successful in the Learner of the Year (Schools) award category, sponsored by Apollo Teaching Services.

Bryony Green
Dylan Thomas Community School

Rhoddodd gymhwyster Lefel 4 Portal yr hyder a'r sgiliau i Bryony ymgeisio'n llwyddiannus am rôl reoli. Bellach, hi yw aelod ieuengaf Tîm Sicrwydd Ansawdd yr ysgol.

Mae Bryony wedi defnyddio'r sgiliau y mae wedi'u dysgu i flaenoriaethu lles staff wrth gyflwyno cynlluniau gwaith newydd ac mae hi newydd ddechrau Cymhwyster Lefel 5.

Portal's Level 4 qualification gave Bryony the confidence and skills to successfully apply for a management role and she is now the youngest member of the Quality Assurance Team. Bryony has used the skills she has learned to prioritise staff wellbeing when introducing new schemes of work and she has now started her Level 5.

Lucy Feliciello
Christ the Word Catholic School

Fe ddangosodd y cwrs ILM i Lucy taw nid bod wrth y llyw yn unig yw arweinyddiaeth, gwneud gwahaniaeth sy'n bwysig. Mae hi'n nodi bod dilyn y cwrs wedi arwain i'w phenodiad fel Pennaeth Adran. Mae Lucy wedi gwneud newidiadau pwrpasol i'r ysgol ac wedi gweithredu Clwb Cyn Ysgol hynod effeithiol o ganlyniad i'r hyn a ddysgodd drwy'r cwrs.

The ILM course showed Lucy that leadership isn't just about being in charge, it's about making a difference and credits the course for her being appointed Head of RE. Lucy has made purposeful changes to the school and implemented a highly effective Before School Club as a result of her learning.

Jenny Johnson
Willowbrook Primary School

Wrth ddilyn rhaglen ILM mae hyder Jenny wedi parhau i dyfu, gan ddatblygu sgiliau sydd wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar yr ysgol gyfan.

Yn ystod y cwrs, deliodd Jenny hefyd â galwad gan Estyn - ond fe fanteisiodd ar y sefyllfa hon a chymhwyso ei phrofiad i'r cwrs ILM.

Through completing the ILM programme Jenny's confidence has continued to grow, developing skills that have had a very positive impact on the whole school.

During the course Jenny also dealt with a call from Estyn - she took advantage of this situation and applied it to the ILM course.

Dysgwr y Flwyddyn (Busnes)
Learner of the Year (Business)

Llongyfarchiadau i'r dair a enwebwyd am wobr Dysgwr y Flwyddyn (Busnes), a noddir gan fenter Unedeb Ewropeaidd, Erasmus+.
Congratulations to the nominees who have been successful in the Learner of the Year (Business) award category, sponsored by EU initiative Erasmus+.

Alys Francis-Hughes
Swansea University

Newidiodd Alys ei swydd yn ystod ei chymhwyster ac roedd disgwyl iddi addasu'n gyflym i naws sector newydd. Rhoddodd y sgiliau a ddatblygodd Alys trwy'r cwrs ILM, sylfaen gadarn iddi ar gyfer y newid hwn.

Mae Alys eisoes wedi adeiladu partneriaethau rhagorol ar draws y brifysgol, gan alluogi cynnydd mewn gweithgareddau masnachol.

Alys changed her job during her qualification which required her to adapt quickly to nuances of a new sector. The skills Alys developed from the ILM provided a solid foundation on which to make the transition.

Alys has already built excellent partnerships across the university, enabling commercial activity to increase.

Fay Benningwood
Cardiff Metropolitan University

Fe wnaeth cwblhau cymhwyster Lefel 5 gyda Portal roi hyder i Fay barhau gydag astudiaeth bellach - ac o ganlyniad mae wedi dechrau gradd Meistr mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth ochr yn ochr â gweithio'n llawn amser.

Mae Fay wedi bod yn ymroddgar ac ymrwymedig trwy gydol ei chwrs ac enwebwyd un o'i phrosiectau ar gyfer gwobr genedlaethol yn 2018.

Gaining the Level 5 qualification with Portal gave Fay confidence to continue with further study - and as a result she has started a Masters in Leadership & Management alongside working full time. Fay has been dedicated and committed throughout her ILM and one of her projects was nominated for a national award in 2018.

Helen Roach
Tai Pawb

Roedd Helen yn benodol eisiau datblygu sgiliau a fframweithiau o'r cwrs ILM i reoli ei maes cyfrifoldeb ei hun yn effeithiol.

Fe wnaeth y ffocws hwn alluogi Helen i gyflwyno system CRM newydd ar gyfer Tai Pawb yn llwyddiannus. Proses sydd wedi gwella cysylltiadau aelodau ac mae hi hefyd wedi recriwtio tîm newydd o hyfforddwyr.

Helen specifically wanted to develop skills and frameworks from the ILM course to effectively manage her own area of responsibility.

This focus enabled Helen to successfully introduce a new CRM system at Tai Pawb which has improved member relations and has also recruited a new team of trainers.

Dysgwr y Flwyddyn (Chwaraeon)
Learner of the Year (Sports)

Llongyfarchiadau i'r tri a enwebwyd am wobr Dysgwr y Flwyddyn (Chwaraeon), a noddir gan y sefydliad 'Gweilch yn y Gymuned'.
Congratulations to the nominees who have been successful in the Learner of the Year (Sports) category, sponsored by the Ospreys in the Community Foundation.

Dane Facey
Cardiff City FC Academy

Dangosodd Dane ymrwymiad, brwdfrydedd a pharodrwydd i ddatblygu ei sgiliau arwain a rheoli trwy gydol ei amser ar y cwrs gyda Portal.

Yn dilyn defnydd effeithiol o feini prawf ILM i archwilio prosiectau a'r gallu i fyfyrio ar ei arferion, mae Dane wedi'i nodi fel rhywun i'w efelychu yn y clwb.

Throughout the course with Portal, Dane demonstrated commitment, enthusiasm and a willingness to develop his leadership and management skills.

Following effective use of ILM criteria to explore projects and the ability to reflect on his practices, Dane has been identified as a role model for future ILM learners at the club.

Natalie Morgan
Welsh Gymnastics

Fe wnaeth y prosiect y bu Natalie yn gweithio arno wrth gwblhau ei chymhwyster gyda Portal, ddod yn brosiect mwyaf llwyddiannus BME benywaidd yn unig yng Nghymru, gan ragori ar y disgwyliadau a'r targedau.

Mae llwyddiant y rhaglen, yn nhyb Natalie, wedi ei galluogi i arwain a rheoli rhaglenni o fewn sefydliad chwaraeon newydd.

The project that Natalie worked on whilst completing ILM 4 became the most successful female only BME project in Wales, exceeding expectations and targets.

Natalie credits the success of the programme to her professional development which has led her to manage programmes in a new sports facility.

Ryan Davies
Swansea City FC Academy

Mae gallu Ryan i asesu effaith ei benderfyniadau ar y busnes cyfan, a ddatblygwyd gan y cwrs ILM, wedi ei alluogi i ddod yn rheolwr effeithiol iawn.

Roedd ymchwiliad trylwyr ynghylch taith cyn dechrau'r tymor, yn llwyddiannus iawn a bydd yn dod yn sail gadarn i gynlluniau ar gyfer teithiau eraill y clwb yn y dyfodol.

Ryan's ability to assess the impact his decisions have on the whole business was developed by the ILM course and has enabled him to become a very effective manager. A thoroughly researched proposal for an assignment regarding a pre-season tour was very successful and will become a blueprint for future tours at the Football Club.

Cyflogwr y Flwyddyn (Addysg)
Employer of the Year (Education)

Llongyfarchiadau i'r tair ysgol a enwebwyd am wobr Cyflogwr y Flwyddyn, a noddir gan gwmni ForSchools sy'n Gwasanaethu Addysg.
Congratulations to the schools that have been nominated for the Employer of the Year award, sponsored by ForSchools.

Ysgol Brynteg School, Bridgend

Mae uwch dîm arweinyddiaeth newydd Ysgol Brynteg wedi gyrru llwyddiant y rhaglen ILM, a gyflwynwyd i roi cymwyseddau i'r staff. Mae'r rhaglen wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol mewn materion sy'n ymwneud â'r model cwricwlwm newydd a hefyd i helpu cynnal cyfarfodydd mwy effeithiol.

A new senior leadership team has further driven the success of the ILM programme at Brynteg, which was introduced to give staff competencies in management.
The programme has been particularly useful in implementing the new curriculum model and also in learning how to hold effective meetings.

Ysgol Cwm Brombil School, Port Talbot

Mae gweithredu Cynllun Rheoli Newid yn un o nifer o fuddion y mae'r rhaglen gan Portal wedi'i gynnig i'r ysgol ac mae ethos Rheoli Perfformiad wedi newid o fod yn brofiad negyddol i fod yn un cadarnhaol.

Mae staff sydd wedi cwblhau'r cwrs ILM gyda Portal, bellach yn gweithredu fel mentoriaid i'r rhai sydd ar y cwrs ar hyn o bryd.

Implementation of a change management plan is one of many benefits the ILM programme has brought to the school and the ethos of Performance Management has changed from a negative to positive experience.

Staff who have completed the ILM course now act as mentors to those currently on the course.

Ysgol St Cyres School, Penarth

Mae sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cefnogi gydag amser a roddir ar gyfer astudio, a defnydd o'i mentoriaid, wedi galluogi'r rhaglen ILM i ysgogi newid.

Mae Dysgu Gydol Oes Barhaus wedi cyflawni canlyniadau cadarnhaol i'r staff yn ogystal â'r ysgol ac wedi hybu lles cyfranogwyr ac ymdeimlad o foddhad swydd.

Ensuring that learners are supported with time allocated for study and use of mentors has enabled the ILM programme to drive change at St Cyres.

Continuing lifelong learning has achieved positive outcomes for staff as well as the school and has boosted participants' wellbeing and sense of job satisfaction.

Cyflogwr y Flwyddyn
Employer of the Year

Llongyfarchiadau i'r sefydliadau a enwebwyd am wobr Cyflogwr y Flwyddyn, a noddir gan gwmni cyfraith fasnachol Darwin Gray.
Congratulations to the organisations that have been nominated for the Employer of the Year award, sponsored by commercial law firm Darwin Gray.

Swansea City AFC

Mae nifer o aelodau staff y Clwb wedi llwyddo i ennill cymhwyster ILM gyda Portal. Mae'r Clwb yn cefnogi eu dysgwyr yn llawn ac yn eu hannog i weithio ar eu datblygiad proffesiynol parhaus. Yn ogystal â hyn, mae'r Clwb yn cymeradwyo cymwysterau Portal yn llawn a'r holl staff sydd wedi bod ar y rhaglen wedi elwa'n llawn o'r agwedd ffurfiol o hyfforddiant rheoli.

The Club has placed a number of its team members through Portal ILM's Qualification and has fully supported their learners to work on their continuous professional development. The club fully endorses Portal's qualifications as all the staff who've been on programme have benefited fully from this formal aspect of management training.

Nant Gwrtheyrn

Mae'r sefydliad wedi bod yn gefnogol iawn i'r dysgwyr sydd wedi, ac yn gweithio ar eu cymwysterau mewn arweinyddiaeth a rheolaeth. Mae awyrgylch braf a chroesawgar yn Nant Gwrtheyrn a mentora dros y rhaglen heb ei ail. Mae'r dysgwyr wedi manteisio'n gyflawn ar hyfforddiant gan Portal a datblygiad proffesiynol y gweithwyr i'w weld yn amlwg.

The organization has been very supportive of the learners who have been/are working on their ILM qualifications in leadership and management.
Nant Gwrtheyrn has a pleasant and welcoming atmosphere and the mentoring of the program is exceptional. The learners have taken full advantage of Portal training and professional development.

Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn buddsoddi'n ei staff a chefnogwyd nifer o Arweinwyr Canol i gwblhau'r cymhwyster ILM gyda Portal.
I gyd fynd a hyn, rhoddodd yr adran Adnoddau Dynol amser teg i bob dysgwr weithio ar eu haseiniadau mewn oriau gwaith arferol. Mae'r Llyfrgell yn angerddol am agweddau iechyd a lles ac yn awyddus fod cefnogaeth ddigonol yn cael ei ddarparu i sicrhau bod y staff yn gallu cyflawni eu cymhwyster.

The National Library invests in the professional development of their staff. To coincide with this, the HR department gave all learners time to work on their assignments in normal working hours. The Library is passionate about the health and well-being of their staff and are always eager for its learners to succeed with their qualification.

Aseswr y Flwyddyn
Assessor of the Year

Llongyfarchiadau i'r tri a enwebwyd am wobr Aseswr y Flwyddyn, gan gwmni argraffu a chynhyrchu Screentec.
Congratulations to the nominees who have been successful in the Assessor of the Year award category, sponsored by print and manufacturing company, Screentec.

Jonathan Watkins Stuart

Mae gan Jonathan y gallu i adeiladu perthnasoedd cryf gyda'i ddysgwyr mewn cyfnod byr. Trwy eu gweld fel ei gwsmeriaid, mae'n ymdrechu 100% er mwyn rhoi'r gwasanaeth gorau.

Mae dysgwyr yn aml yn rhoi sylwadau ar frwdfrydedd Jonathan sydd wedi bod yn rhan annatod o gael dysgwyr i gyflawni eu gwaith yn amserol.

Jonathan has the ability to build strong relationships with his learners in a short period of time, viewing them as his customers, he gives 100% to give them the best service.

Learners often comment on Jonathan's enthusiasm which has been integral to getting learners to reach their timely achievement.

Karen Drage

Mae Karen yn meithrin perthnasoedd cryf gyda'i dysgwyr, sy'n ei galluogi i feithrin addysgu a dysgu o ansawdd trwy gydol taith y dysgwr.

Mae Karen yn llysgennad arbennig i'r cwmni ac yn arddangos gwerthoedd Portal bob dydd yn naturiol. Mae'n barod a chyflym iawn i gynnig help i gefnogi ei chyfoedion.

Karen builds strong relationships with learners, which enables her to instil quality teaching and learning throughout the learner journey.

A real ambassador for the company, Karen naturally displays Portal's values every day and is very quick to offer help to support her peers.

Melissa O'Connor

Mae Melissa yn cyflawni ei rôl i safon uchel iawn. Mae ei brwdfrydedd am ragoriaeth wedi cael effaith gadarnhaol ar ei dysgwyr, a phob un wedi nodi cyfradd cyrhaeddiad o 100%.

Mae Mel yn cydweithio'n agos â'i dysgwyr i wneud y mwyaf o gyfleoedd asesu sy'n arddangos eu doniau personol. Mae hi'n gweithio gyda gonestrwydd, gan ymdrechu am ragoriaeth.

Carrying out her role to a very high standard and not being afraid to seek feedback has had a positive impact on Mel's learners, who have a 100% attainment rate.

Mel works with learners to maximise assessment opportunities that showcase their personal talents and always works with integrity, striving for excellence.

Gwobr Cyflawniad Arbennig
Special Recognition Award

Llongyfarchiadau i'r tri a enwebwyd am wobr Cyflawniad Arbennig, a gyd-noddir gan gwmnïau iTeach a Thomas Carroll Group.
Congratulations to the nominees for the Special Recognition award, sponsored by both iTeach and Thomas Carroll Group.

Josh Young

Mae Josh yn ennill parch ei gyfoedion trwy arddangos gwerthoedd craidd y cwmni yn glir. Mae'n agored ac yn onest wrth gyflawni ei rôl fel Swyddog Cadw Safonau, gan herio hen arferion a chyflawni ei waith mewn modd proffesiynol sydd wedi arwain at safonau uwch yng ngwaith y cwmni.

Josh, a new member of the Portal Team, has already gained the respect of his peers by clearly demonstrating the company's core values. He is open and honest while carrying out his role as a verifier, challenging standard practice and delivery in a professional manner which has resulted in raised standards.

Kelsey Williams

Mae Kelsey yn berson gonest, cyfeillgar a phob amser yn gwenu. Mae hi'n garedig, yn feddylgar ac yn gydweithiwr rhyfeddol. Mae'n berson y gellir dibynnu arno i gyflawni tasgau yn gydwybodol ac i'r ansawdd uchaf waeth pa adran sy'n gofyn am ei chefnogaeth. Gwnaiff hyn yn ei dull cadarnhaol, hapus a diwyd arferol.

Honest, friendly and always smiling. She is kind, thoughtful and a wonderful colleague. Kelsey is very much a person that can be depended upon to conscientiously complete tasks to the highest quality regardless of which department asks for her support and does so in her usual positive, happy and diligent manner.

Lois Basnett

Mae Lois yn ran anotod o Dîm Portal ac yn frwd ym mhopeth y mae hi'n ei gyflawni yn ei rôl. Gydag agwedd gadarnhaol, mae Lois yn mynd y tu hwnt i bob dydd, gan ddangos gwerth craidd Portal bob amser. Mae ei chydweithwyr, ei chleientiaid ac Uwch Dîm Rheoli Portal wedi datgan droeon ei bod yn uchel ei pharch.

Team player Lois is enthusiastic in everything she accomplishes in her role. With a can-do attitude Lois goes above and beyond every day, always demonstrating Portal's core values. She is highly regarded by her colleagues, clients and the Portal Senior Management.

Noddwyr / Sponsors

ACT

ACT yw prif ddarparwr hyfforddiant Cymru. Ers y 3 degawd diwethaf, mae ACT wedi bod yn darparu Rhaglenni i Hyfforddeion, Prentisiaethau a Phrentisiaethau Uwch ar gyfer amrywiaeth eang o ddysgwyr gyda dros 6,500 o bobl yn dod trwy eu drysau bob blwyddyn. Cenhadaeth y cwmni yw gwneud gwahaniaeth positif i fywydau pobl a, thrwy eu harlwy o ddysgu, gweithio tuag at y nod o sicrhau bod Cymru yn lle gwell, yn gymdeithasol ac yn economaidd. Mae ACT yn cyflogi 360 aelod o staff ar draws 7 safle yng Nghymru ac mae wedi ymddangos yn rhestr 100 Cwmni Gorau'r Sunday Times 5 mlynedd yn olynol. Yn 2018, enillodd wobr 'Busnes Cyfrifol Mawr y Flwyddyn' gan Business in the Community Cymru.

ACT is Wales' leading training provider. For the past 3 decades ACT have been delivering Traineeships, Apprenticeships and Higher Apprenticeships to a diverse intake of learners with over 6,500 people passing through their doors each year. The company's mission is to make a positive difference to people's lives and, through their learning provision, work towards the goal of making Wales a better place, socially and economically. Employing 360 members of staff across 7 sites in Wales, ACT has featured in the Sunday Times Top 100 Best Companies list for 5 consecutive years and in 2018 was awarded 'Large Responsible Business of the Year' by Business in the Community Cymru.

Apollo

Sefydlwyd Gwasanaethau Addysgu Apollo yn 2006 gan athro profiadol ac ymgynghorydd ar recriwtio mewn ymateb i'r newid yn anghenion ysgolion wrth gaffael ar staff addysgu i gyflenwi dros dro. Credwn yn gryf y dylai athrawon cyflenwi fod yn gallu darparu gwasanaeth sydd ddim yn tynnu oddi ar ansawdd yr addysgu y mae disgyblion yn ei fwynhau ac ysgolion yn ei ddisgwyl. O'r digwyddiadau sy'n codi arian i elusennau, i bencampwriaethau athletau, rydym eisiau cyfrannu at y digwyddiadau a'r sefydliadau sy'n bwysig i'n hysgolion a'u staff. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cefnogi elusennau cenedlaethol a lleol, gwobrau yn y gymuned, digwyddiadau sy'n benodol i ysgolion ac ymgyrchoedd i godi arian i unigolion. Rhowch glic ar ein tudalen Gwerthoedd Cymunedol i gael rhagor o wybodaeth.

Apollo Teaching Services was founded in 2006 by an experienced teacher and recruitment consultant who saw the changing needs of schools in the procurement of temporary teaching staff. Apollo firmly believes that supply teachers should be able to provide a service that does not deter from the quality of teaching that pupils enjoy and that schools expect. From charity fundraisers to athletic championships Apollo contributes to events and organisations that are important to the schools and staff the work with. Over the last year Apollo have supported national and local charities, community awards, school specific events and fundraisers for individuals.

Noddwyr / Sponsors

BPU Chartered Accountants

Sefydlwyd BPU dros 50 mlynedd yn ôl, ac mae'n gwmni o gyfrifyddion siartredig a chynghorwyr busnes sy'n arwain y maes. Mae wedi ei leoli yn Ne Cymru. Maent yn fwy na chyfrifyddion ac yn cynnig dewis eang o wasanaethau i helpu busnesau ac unigolion i ddatgelu potensial eu busnesau.

Mae BPU yn cynghori cleientiaid corfforaethol a phersonol yn y sectorau preifat, cyhoeddus ac elusennol, gydag un nod, sef eu helpu i gynyddu eu cyfoeth ac i gyflawni eu nodau busnes.

Established over 50 years ago, BPU is a leading firm of chartered accountants and business advisors based in South Wales. BPU are more than just accountants and offer a wide range of services to help businesses and individuals unleash their business potential.

BPU advises both corporate and personal clients in the private, public and charity sectors with one aim of helping clients increase their wealth and achieve their business goals.

Darwin Gray

Cwmni cyfraith fasnachol yw Darwin Gray ac mae wedi ei leoli yng Nghaerdydd.

Maent yn ymfalchïo yn eu henw da am gynorthwyo cleientiaid mewn ffordd ymarferol, sydd â ffocws ar yr ateb. Darperir ddewis llawn o wasanaethau cyfreithiol a'n nod yw meithrin dealltwriaeth drwyadl o fusnesau eu cleientiaid. Mae hyn yn eu galluogi i adeiladu partneriaethau hirdymor cryfion gyda nhw.

Mae gan Darwin Gray egwyddor tîm cadarn sy'n sicrhau cysondeb ac ansawdd sy'n treiddio trwy bob peth a wnânt. Bydd eich busnes ar eu meddwl ar bob adeg, a byddent yn sicrhau bydd eu cleientiaid yn cael gwerth gwych am eu harian.

Darwin Gray is a commercial law firm based in Cardiff.
Darwin Gray are proud of their reputation for using a practical and solution-focused approach when helping clients. They provide a full range of legal services and aim to achieve a thorough understanding of clients' businesses. This allows them to build strong long-term partnerships with their clients.

Darwin Gray have a strong team ethic, putting approachability, consistency and quality at the heart of everything they do.

Their customers business will always be at the forefront of their minds, whilst ensuring they also receive excellent value for money.

Noddwyr / Sponsors

Erasmus+

Erasmus+ yw rhaglen yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer addysg, hyfforddiant, ieuenctid a chwaraeon. Mae wedi bod ar waith ers saith mlynedd, o 2014 tan 2020, a gwahoddir sefydliadau i geisio am gyllid bob blwyddyn ar gyfer gweithgareddau a phrofiadau astudio, gwirfoddoli a gwaith sy'n newid bywyd, a hynny dramor gan fwyaf. Mae sefydliadau yn y Deyrnas Unedig wedi cael bron i €900m er 2014, a ledled Ewrop dathlodd y rhaglen ei 10 miliynfed gyfranogwr y llynedd, gyda dros 600,000 o'r rheiny wedi bod yn gyfranogwyr o'r Deyrnas Unedig. Mae Asiantaeth Genedlaethol Erasmus+ UK, sy'n gyfrifol am gyflwyno'r rhaglen hon, yn bartneriaeth rhwng British Council ac Ecorys UK. I gael rhagor o wybodaeth, rhowch glic ar erasmusplus.org.uk

Erasmus+ is the European Union programme for education, training, youth and sport. It spans for seven years, from 2014 to 2020, with organisations invited to apply for funding each year for life-changing study, volunteering and work activities and experiences, mainly abroad. Close to €900m has been awarded to UK organisations since 2014 and Europe-wide the programme celebrated its 10 millionth participant last year, with over 600,000 of those having been from the UK. The Erasmus+ UK National Agency, responsible for delivering the programme, is a partnership between the British Council and Ecorys UK. To learn more, go to erasmusplus.org.uk.

For Schools

Un nod sydd gan For Schools, sef i wneud gwahaniaeth i fywydau plant trwy wella ansawdd eu haddysg. Heddiw, mae ysgolion yn wynebu mwy o heriau nag erioed gyda gostyngiad mewn cyllid, diwygiadau dro ar ôl tro gan y llywodraeth, materion recriwtio, a'r cyfan yn uno i greu amgylchedd gwaith sy'n aml yn gofyn am lawer o egni ac ymdrech. Mae mwyafrif helaeth eu gwaith yn waith uniongyrchol gydag ysgolion yn y Deyrnas Unedig a thramor. Credant yn gryf fod pob ysgol yn wahanol ac, fel y cyfryw, gellir teilwra pob un o'u cynnyrch a'u gwasanaethau at leoliad penodol yr ysgol. Er mwyn darganfod rhagor, da chi cysylltwch â ni!

At For Schools Education Services, we have one goal: to make a a difference to children's lives by improving the quality of their education. Today, schools face more challenges than ever with reduced funding, constant government reform, recruitment issues, all coming together to create an often strenuous working environment. The vast majority of work we do is directly with schools in the UK and abroad. We strongly believe that no two schools are the same and as such, all of our products and services can be tailored to suit your particular setting. To discover how, or request a service that you haven't spotted on the website, contact us here.

Noddwyr / Sponsors

iTeach

Cwmni T.G. sydd wedi ei leoli yng Nghaerdydd ac sy'n cynnig cymorth a gwasanaethau technegol i gwsmeriaid Addysg a Busnes ledled y wlad. Ffurfiwyd iTeach yn 2012 ac mae wedi tyfu'n sylweddol bob blwyddyn.

Mae eu tîm anhygoel yn eu galluogi i ddarparu gwasanaeth rhagorol sy'n sicrhau mai anghenion eu cwsmeriaid sydd flaenllaw. Maent wrth ein boddau â her ac felly ni fyddwch yn clywed y gair "Na" yn dod o'u genau!

iTeach is a Cardiff based I.T. Support company offering technical support and services to Education and Business customers across the country. iTeach was formed in 2012 and has grown considerably in size each year.

Our incredible team allow us to deliver an exceptional service that puts the needs of our customers first. We absolutely love a challenge so the word "No" is not something you'll hear from us!

Gweilch yn y Gymuned / Ospreys in the Community

Sefydliad dielw yw Gweilch yn y Gymuned sy'n gweithio mewn partneriaeth agos gyda Rygbi'r Gweilch gan weithio'n annibynnol i'r sefydliad rygbi proffesiynol. Eu nod yw creu sefydliad egnïol a chynaliadwy a ffrwyno grym y Gweilch er mwyn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol yn eu cymunedau. Gobeithiwn annog bechgyn a merched o bob oed a gallu i wneud dewisiadau positif yn eu bywydau. Gweithiant i wella bywydau trwy weithio gydag eraill i greu dewis o raglenni sy'n eistedd o fewn eu pedwar gwerth craidd: addysg, iechyd, chwaraeon a chynhwysiant.

We are a not-for-profit foundation working in close partnership with Ospreys Rugby operating independently to the professional rugby organisation. Our aim is to create a vibrant and sustainable foundation and harness the power of the Ospreys to make a positive difference in our communities. We hope to encourage boys and girls of all ages and abilities to make positive life choices. We work to improve lives by working with others to create a range of programmes that sit within our four core values: education, health, sport, and inclusion.

Noddwyr / Sponsors

Screentec

Ers 1997, mae esblygiad o gwmni sgrin-brintio traddodiadol i gyflenwr cydnabyddedig cynnyrch wedi eu hargraffu o'r radd flaenaf, wedi bod yn brofiad hynod o foddhaol. Seiliwyd yr esblygiad hwn ar egwyddor hynafol, sef eich bod yn rhoi i'r cwsmer yr hyn y mae arno'i angen, am bris gwych sy'n werth eu harian, ac yn ei ddarparu ar amser! Diolch i ymdrechion rhagorol gweithlu ymroddgar, a theyrngarwch eu cwsmeriaid, mae Screentec wedi llwyddo i dyfu flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Nawr, maent yn darparu datrysiadau print hyblyg i fusnesau a sefydliadau o bob maint, ledled y Deyrnas Unedig. Nid dim ond cymryd archebion yw eu gwaith; maent wrth eu boddau yn gweithio gyda chwsmeriaid i gynnig yr ateb gorau posibl ar gyfer y gwaith dan sylw, a, fel arfer, yn llwyddo i arbed arian iddynt yn y broses.

Since 1997, Screentec's evolution from a traditional screen printer to a recognised supplier of quality printed products has been extremely satisfying. It's been based on an age old principle that you give the customer what they need at a price that represents great value and deliver it on time! With the great efforts of a dedicated workforce and the loyalty of our customers, the company has been able to grow year on year.

Screentec now provides businesses and organisations throughout the UK of all sizes with "flexible print solutions". They don't simply take orders; they take great delight in working with customers to offer the best solution for the job in hand, usually saving them money in the process.

Thomas Carroll Group

Gyda mwy na 45 mlynedd o brofiad, mae Thomas Carroll Group plc yn un o brif ddarparwyr annibynnol y DU o froceriaeth yswiriant busnes, brocera yswiriant personol, buddion gweithwyr, rheoli cyfoeth, iechyd a diogelwch ac ymgynghoriaeth cyfraith cyflogaeth.

Dros y blynyddoedd maent wedi symud yn nes at eu cleientiaid, gan agor swyddfeydd yn Abertawe, Sir Benfro, Henffordd, Casnewydd a Llundain yn ychwanegol at eu pencadlys yng Nghaerffili.

Mae eu ethos sy'n canolbwyntio ar gleientiaid, eu dull cyfeillgar a rheolaeth hawliadau mewnol, wedi arwain at berthnasoedd cryf a hirhoedlog sydd wedi gweld y cwmni'n tyfu o nerth i nerth gan gipio ambell wobr ar hyd eu taith.

With more than 45 years' experience, Thomas Carroll Group plc is one of the UK's leading independent providers of business insurance broking, personal insurance broking, employee benefits, wealth management, health & safety and employment law consultancy.

Over the years Thomas Carroll Group plc have moved closer to their clients, opening local offices in Swansea, Pembrokeshire, Hereford, Newport and London in addition to the headquarters in Caerphilly.

A client-focused ethos, friendly approach and in-house claims management has resulted in strong and long-lasting relationships which have seen their award-winning group grow from strength to strength.

Cefnogwyr / Supporters

Front Door

Asiantaeth cysylltiadau cyhoeddus, cyfryngau cymdeithasol a marchnata cynnwys yw Front Door Communications ac mae wedi ei lleoli yng Nghaerdydd. Sefydlwyd gan gyn-newyddiadurwr gyda'r BBC a chyn-bennaeth Marchnata GoCompare. Rydym yn cynnig cyfuniad o gysylltiadau cyhoeddus traddodiadol a marchnata digidol blaengar, gan gynnwys systemau Optimeiddio Peiriannau Chwilio a chynnwys, cyfryngau cymdeithasol a hysbysebion am dâl. Lansiwyd y cwmni ym mis Ionawr 2017, a'u hethos yw gweithio gyda chleientiaid sy'n annwyl iddynt ac maent yn credu ynddynt.
Wrth galon ein gwaith mae arbenigedd y tîm ar adrodd stori - gwydden nhw sut i ddatgelu'r stori yn eich busnes a maent yn defnyddio y sianel orau i drosglwyddo'r stori honno i'r cyhoedd.

A Cardiff-based PR, social media and content marketing agency, Front Door Communications is an agency that was set up by an ex-BBC journalist and the former Head of Marketing for GoCompare – they offer a blend of traditional PR with forward thinking digital marketing, including SEO and content, social media and paid advertising.

Launched in January 2017, Front Door's ethos has been to work with clients that they love and that they believe in.

At their core, the Front Door team are experts at storytelling – they know how to find the story in your business and also use the best channel to get that story across to the public.

Diolch / Thank you

Gwawr Booth

Rheolwr Gyfarwyddwr
Managing Director

Clare Jeffries

Cyfarwyddwr Gweithrediadau
Director of Operations

Jan Hart

Cyfarwyddwr Ansawdd
Director of Quality

Hoffai'r dair ohonom ddiolch i chi gyd am eich cefnogaeth ddiffuant a gwresog dros y blynyddoedd a hefyd am eich presenoldeb brwd yn ein noson arbennig ni heno. Ni allwn gyfleu ein gwerthfawrogiad i chi ddigon.

Edrychwn ymlaen yn ddirfawr i barhau i gyd weithio gyda chi yn y dyfodol a dyfnhau'r perthnasoedd hyfryd sydd gennym gyda chi eisoes.

Gobeithio'n wir y cawn eich cwmni'r flwyddyn nesaf, ond da chi, mwynhewch y noson a diolch o galon i chi am ddod.

The three of us would like to thank you all for your sincere and warm support over the years and also for your enthusiastic presence at our special evening tonight. We cannot convey our appreciation to you enough.

We very much look forward to continuing to work alongside and with you in the future and deepen the wonderful relationships we already have with you.

We really hope we have your company next year but please enjoy the evening and thank you very much for coming.

Diolch a chofion cynnes iawn,

Gyda diolch i'n noddwyr /
With thanks to our sponsors

Portal

Portal Training, Ocean Park House,
East Tyndall Street, Caerdydd, CF24 5ET

info@portaltraining.co.uk ☎ 02920 474 060 portaltraining.co.uk